

## Pleidleisio drwy'r post

Mae pleidleisio drwy'r post yn ffordd hawdd a chyfleus o bleidleisio os na allwch gyrraedd yr orsaf bleidleisio.

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad neu refferendwm penodol, am gyfnod penodol o amser neu ym mhob etholiad neu refferendwm a gynhelir yn y dyfodol. Gellir anfon pleidleisiau post i gyfeiriadau yn y DU a thramor.

Yng Nghymru a Lloegr rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio i fwrw pleidlais.

Yn yr Alban rhaid eich bod yn 16 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban. Rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd mewn etholiadau i Senedd y DU a Senedd Ewrop.

## Sut ydw i'n gwneud cais i bleidleisio drwy'r post?

- Llenwch y ffurflen gais pleidleisio drwy'r post.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod. Mae angen eich dyddiad geni a'ch llofnod ar y ffurflen gais hon, ac eto pan fyddwch yn defnyddio eich pleidlais bost. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.
- Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. **Mae'r manylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn [dybleidlaisdi.co.uk](http://dybleidlaisdi.co.uk)**

**Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol.** Rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen gais pleidleisio drwy'r post erbyn **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.**

Os nad ydych eisoed wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid bod eich cais i gofrestru wedi cyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol erbyn **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.**

**Nid yw'r ffurflen hon na'r terfynau amser hyn yn gymwys i Ogledd Iwerddon.** Ewch i [eoni.org.uk](http://eoni.org.uk) am ragor o wybodaeth.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Pan gynhelir etholiad neu refferendwm, anfonir eich papur pleidleisio atoch drwy'r post. I gael gwybod pryd y caiff eich papur pleidleisio ei anfon, gallwch gysylltu â'ch tîm etholiadau yn eich cyngor lleol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd eich pleidlais bost fel ei bod yn cyrraedd erbyn diwedd y cyfnod pleidleisio, neu ni chaiff ei chyfrif. Caiff amlen Rhadbost ei chynnwys yn eich pecyn pleidleisio drwy'r post. Ond, os byddwch yn ei hanfon o dramor, efallai y bydd angen i chi dalu am ei phostio.
- Os yw'n rhy hwyr i chi ddychwelyd eich pleidlais drwy'r post, gallwch ei chyflwyno'n bersonol ar y diwrnod pleidleisio i dîm etholiadau eich cyngor, neu gallwch fynd â hi i rai gorsafoedd pleidleisio.

## Datganiad preifatrwydd

Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ond yn defnyddio'r wybodaeth a rowch iddo at ddibenion etholiadol. Bydd yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Ni fydd yn rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi nac unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu am bobl eraill o bosibl ag unrhyw unigolyn na sefydliad arall oni bai bod yn rhaid iddo yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol casglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol a roddir i Swyddog Cofrestru Etholiadol fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data. I gael rhagor o wybodaeth am brosesu data personol, dylech gyfeirio at ei hysbyseb preifatrwydd ar ei wefan. Mae cyfeiriad ei wefan a'r manylion cyswllt ar gael yn [dybleidlaisdi.co.uk](http://dybleidlaisdi.co.uk)

